## ROCP 36, National Energy Action

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

Adolygiad o flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd | Review of the Committee's priorities for the Sixth Senedd

Ymateb gan National Energy Action | Evidence from National Energy Action

## Ymateb National Energy Action (NEA) i'r Adolygiad o Flaenoriaethau'r Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar gyfer y Chweched Senedd

### 1. Ynghylch National Energy Action (NEA)

1.1 Mae NEA[1] yn gweithio ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i sicrhau y gall pawb yn y Deyrnas Unedig[2] fforddio byw mewn cartref cynnes ac iach. I gyflawni hyn, rydyn ni'n hyrwyddo ac yn darparu rhaglenni effeithlonrwydd ynni cenedlaethol a lleol, yn anelu at wella mynediad at gyngor ar ynni a dyledion, yn darparu hyfforddiant ac yn cydlynu gwasanaethau cysylltiedig eraill a all helpu i newid bywydau[3].

### 2. Ymchwiliad a Awgrymir (a) - Ymchwiliad i'r cynnydd tuag at dargedau tlodi tanwydd dros dro

### 2.1 Natur y mater

2.1.1 Hyd yn oed cyn yr argyfwng ynni a'r pandemig, amcangyfrifwyd marwolaethau ychwanegol y gaeaf o ganlyniad i fyw mewn cartref oer fel tua 10,000 y flwyddyn ar draws y DU. Un o'r cyfranwyr mwyaf at y marwolaethau diangen hyn yw pobl agored i niwed, y maent yn aml yn ceisio dod i ben â salwch presennol, sy'n methu â gwresogi eu cartrefi'n ddigonol, os o gwbl. Yn ogystal â nifer annerbyniol o uchel o farwolaethau gaeaf y gellir eu hosgoi, mae cannoedd ar filoedd yn fwy o bobl yng Nghymru'n cael trafferth sylweddol i fforddio gwresogi a phweru eu cartrefi'n ddigonol ac yn dioddef o iechyd corfforol a meddyliol gwael oherwydd cartrefi oer. Mae'r effaith ddilynol ar wasanaethau iechyd yn ddifrifol; gan gostio £95m i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn a rhoi straen enfawr diangen ar ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd o dan bwysau.

2.1.2 Mae'r argyfwng ynni presennol wedi gwaethygu hyn, gyda chartrefi yn dogni eu defnydd o ynni i lefelau sydd yn aml yn eithafol. Mae hyn yn arwain at gartrefi oer, llaith ac wedi'u llwydo, a diflastod i'r rhai sy'n byw ynddynt. Dim ond rhai o'r effeithiau negyddol sy'n deillio o dlodi tanwydd yw iechyd, lles a chyrhaeddiad addysgol.

2.1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod hyd at 614,000 o aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd ar hyn o bryd. Mae hynny'n cynnwys bron pob un o'n haelwydydd incwm is, yr amcangyfrifir bod dros bedwar o bob 10 ohonynt mewn tlodi tanwydd dwys a difrifol, yn gorfod gwario cyfrannau enfawr o'u hincwm dim ond i gadw'n gynnes.[4]

### 2.2 Pam ei fod yn haeddu sylw

2.2.1 O dan ei Chynllun *Trechu Tlodi Tanwydd*, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod tri tharged, sef erbyn 2035: ni amcangyfrifir bod unrhyw aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol neu barhaus cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol; yr amcangyfrifir nad oes mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd ar unrhyw un adeg cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol; *a* bod nifer yr holl aelwydydd sydd 'mewn perygl' o syrthio i dlodi tanwydd yn cael ei haneru a mwy ar sail amcangyfrif 2018.[5]

2.2.2 Er bod y targedau hyn i'w croesawu, nid oes unrhyw dargedau dros dro ar hyn o bryd i ddarparu llwybr clir a mesur cynnydd ar hyd y ffordd. Mae hyn er gwaethaf dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i roi'r cerrig milltir allweddol hyn ar waith tuag at amcanion 2035. Gyda 12 mlynedd i fynd rhwng nawr a'r dyddiad targed, rydym yn pryderu bod targedau anstatudol, sy'n rhychwantu tri thymor y Senedd, heb unrhyw gerrig milltir dros dro, mewn perygl difrifol o fethu â gyrru'r camau gweithredu a'r buddsoddiad parhaus y mae eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn yng Nghymru.

2.2.3 Mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, NEA a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru, wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau tlodi tanwydd dros dro yn seiliedig ar effeithlonrwydd ynni cartrefi sydd mewn tlodi tanwydd. Er bod camau gweithredu cyfochrog ar draws incymau a phrisiau ynni cynyddol yn angenrheidiol i weithredu ar dlodi tanwydd, mae gwelliannau i effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi'r rhai ar yr incwm isaf a'r eiddo lleiaf effeithlon yn uniongyrchol o dan reolaeth Llywodraeth Cymru a byddent yn sicrhau bod cymorth cysylltiedig yn cael ei sianelu. i'r cartrefi hyn yn gyntaf. Felly, byddem yn croesawu i'r Pwyllgor hwn ystyried p'un a ddylai Llywodraeth Cymru weithredu targedau carreg filltir i helpu i'w harwain tuag at y targed terfynol yn 2035.

### 2.3 Sut y gellid datblygu neu wella polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn

**2.3.1** Er mwyn gwella polisïau i frwydro yn erbyn tlodi tanwydd yng Nghymru mae angen craffu'n sylweddol ar y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud, ac y gallai ei wneud, i leddfu tlodi tanwydd. Yn benodol, dylai fod ffocws ar y potensial ar gyfer cynnydd sylweddol mewn cyllid i wneud cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd

yn fwy effeithlon o ran ynni dros gyfnod hir o amser, er mwyn lleihau'r risg o orfod gwario'r symiau o arian yr oedd eu hangen dros y 12 mis diwethaf i gymorthdalu biliau ynni.

## 3. Ymchwiliad a Awgrymir (b) – Ymchwiliad i gyflawni Trawsnewidiad Cyfiawn i Sero Net ar draws y DU

### 3.1 Natur y mater

3.1.1 Mae gan y DU darged cyffredinol i gyrraedd sero net erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer datgarboneiddio gwresogi. Hyd yma, fodd bynnag, ni fu cynllun clir o ran sut y gall pontio i sero net fod yn gyfiawn, yn deg ac yn fforddiadwy. Mae hyn yn cyferbynnu â'r Alban, lle mae Comisiwn Pontio Cyfiawn wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r mater arwyddocaol hwn.

### 3.2 Pam ei fod yn haeddu sylw

3.2.1 Os nad oes strategaeth gyffredinol i weithio tuag at bontio cyfiawn i sero net, ac nad oes unrhyw graffu yn y maes hwn, mae'n debygol na fydd ein llwybr tuag at sero net yn un teg i bobl ar draws Cymru. Cyfle a gollwyd fyddai hwn. Mae manteision sylweddol i gyflawni sero net yn gywir, gan gynnwys:

- Costau ynni gostyngol i gartrefi incwm isel
- Gwell iechyd y genedl, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig
- Gwell ansawdd aer ar draws Cymru
- Mwy o gyfoeth mewn rhannau o Gymru sy'n gymharol dlawd.

3.2.2 Mae dirfawr angen craffu i sicrhau y gall Cymru ddatgloi'r manteision hyn.

### 3.3 Sut y gellid datblygu neu wella polisi'r Llywodraeth yn y maes hwn

3.3.1 Mae sawl polisi gwahanol y gellid eu datblygu a'u gwella er mwyn gweithio tuag at bontio cyfiawn, gan gynnwys:

- Dysgu o ymdrechion yn Yr Alban a'u Comisiwn Pontio Cyfiawn
- Sicrhau bod aelwydydd incwm isel yn cael eu blaenoriaethu yn y cyfnod pontio er mwyn sicrhau y gallant weld buddion cynnar
- Sicrhau bod ymdrechion i gyrraedd sero net yn mynd yn nod trawsadrannol go iawn.

## Ymchwiliad a Awgrymir (c) – Ymchwiliad undydd i fforddadwyedd ynni yn y gaeaf i ddod

### 3.4 Natur y mater

3.4.1 Mae'r rheoleiddiwr ynni, Ofgem, wedi cyhoeddi y bydd y bil cartref blynyddol arferol o fis Hydref yn £1,923 rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr. Dywed dadansoddwyr y bydd prisiau'n aros ar y lefel hon yn fras, os nad yn codi ychydig, yn 2024. Er bod hyn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â chapiau blaenorol ar brisiau, bydd y costau a wynebir gan ddefnyddwyr ynni'n debyg iawn i'r gaeaf hwn, gan fod cymorth gan lywodraethau wedi lleihau. Mae hyn yn bryderus tu hwnt – mae'r argyfwng wedi gweld y nifer uchaf erioed o aelwydydd yng Nghymru yn disgyn i dlodi tanwydd, a gwaethygiad sylweddol yng nghaledi'r rhai sydd eisoes yn dioddef. Mae llawer hefyd wedi cronni dyledion ynni y bydd angen dechrau eu talu'n ôl yn y misoedd i ddod. Iddynt hwy, bydd cyfanswm costau ynni (gan gynnwys dyled) yn uwch y gaeaf hwn na'r llynedd. Hyd yma, ni fu unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i ddarparu unrhyw gymorth ariannol ychwanegol yn seiliedig ar ynni ar gyfer aelwydydd incwm isel.

### 3.5 Pam ei fod yn haeddu sylw

3.5.1 Heb gymorth ychwanegol y gaeaf hwn, os bydd prisiau'n aros ar y lefel y mae dadansoddwyr yn ei rhagfynegi, mae'n debygol y bydd cannoedd o filoedd o aelwydydd yng Nghymru yn parhau i gael trafferth wrth dalu eu biliau ynni. Gyda'r costau a welwyd dros y gaeaf diwethaf, gwelsom y lefel uchaf o anfantais i'n cleientiaid ers i ni ddechrau ein gweithrediadau fwy na 40 mlynedd yn ôl. Mae hyn wedi'i adlewyrchu ym mhrofiadau sefydliadau eraill fel Cyngor ar Bopeth, sydd hefyd wedi nodi cynnydd aruthrol yn y defnydd o'u gwasanaethau.

3.5.2 Er bod rhywfaint o gymhorthdal incwm wedi'i roi drwy daliadau costau byw Llywodraeth y DU, nid yw'r rhain yn ddigonol. Cânt eu gweinyddu drwy'r system nawdd cymdeithasol; nid yw llawer o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn derbyn unrhyw fudd-daliadau, ac maent yn cael eu talu ar draws nifer fawr o hanfodion. Ni fyddant

hyd yn oed yn dechrau talu biliau ynni'r gaeaf, yn enwedig yn achos y rhai na allant ledaenu eu costau dros flwyddyn drwy ddebyd uniongyrchol.

### 3.6 Sut y gellid datblygu neu wella polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn

3.6.1 Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried i ba raddau y bydd yn darparu cymorth i helpu aelwydydd incwm isel gyda'u biliau ynni y gaeaf hwn. Gallai hyn gynnwys darparu cymorth ariannol wedi'i dargedu i ategu'r hyn a ddarperir gan Lywodraeth y DU, neu gymorth anariannol, megis sicrhau cynllunio digonol cyn y gaeaf a gweithio gydag rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod eu cymorth nhw'n ddigonol. Er bod Llywodraeth Cymru yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, rhaid iddi benderfynu sut i flaenoriaethu gwariant y gyllideb hon, ac a oes angen ei defnyddio i gefnogi aelwydydd Cymru i gadw'n gynnes adref y gaeaf hwn.

---

[1] I gael mwy o wybodaeth ewch i: www.nea.org.uk.
[2] Mae NEA hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'n chwaer elusen Energy Action Scotland (EAS) i sicrhau, gyda'n gilydd, y gallwn ni gyrraedd ar draws y DU.
[3] Ffocws mawr i'r elusen yn ddiweddar fu Rhaglen Iechyd ac Arloesedd (HiP) NEA, sef rhaglen £26.2 miliwn i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd a'r rhai sy'n agored i niwed yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Wedi'i lansio ym mis Ebrill 2015 gan NEA fel rhan o gytundeb gydag Ofgem a chwmnïau ynni i wneud iawn am ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded, dyma'r rhaglen effeithlonrwydd ynni fwyaf ledled Prydain Fawr o hyd a weithredir gan elusen sy'n rhoi lleddfu tlodi tanwydd wrth ei gwraidd. I gael gwybod mwy am HiP ewch i: https://www.nea.org.uk/hip/
[4] https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-wediu-modelu-ar-gyfer-cymru-prif-ganlyniadau-ym-mis-hydref-2021-html
[5] https://llyw.cymru/trechu-tlodi-tanwydd-2021-i-2035-html